OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

**2020 No. [ ]**

**HARBYRAU, DOCIAU, PIERAU A FFERÏAU, CYMRU**

Gorchymyn Adolygu (Cyfansoddiad) Harbwr Saundersfoot 2020

*Gwnaed [ ] 2020*

*Yn dod i rym [ ] 2020*

CYNNWYS


1. Enwi a chychwyn
2. Dehongli
3. Y Comisiynwyr
4. Cyfansoddiad y Comisiynwyr
5. Panel penodi
6. Penodi Comisynwyr a chyfnod mewn swydd
7. Darpariaethau Trosiannol
8. Cyfnod mewn swydd Comisiynwyr dilynol
9. Swyddi gwag dros dro
10. Pwerau cyffredinol
11. Is-ddeddfau'r harbwr
12. Pwerau benthyca
13. Benthyca dros dro
14. Pwyllgor cynghori
15. Cydnabyddiaeth y Comisiynwyr a'r Cadeirydd
16. Mân ddiwygiadau a chanlyniadol

ATODLEN – MÂN WELLIANNAU A CHANLYNIADOL I ORCHYMYN 2011


Mae Comisiynwyr Harbwr Saundersfoot wedi gwneud cais am orchymyn adolygu harbwr o dan adran 14 o'r Ddeddf Harbyrau 1964(**a**);

Mae Gweinidogion Cymru (y Gweinidog priodol o dan isadran (7) o'r ddywededig Adran 14(**a**)), wrth arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran honno a freiniwyd nawr iddyn nhw (**b**) yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi a chychwyn

**1.—**(1) Gall y Gorchymyn hwn gael ei enwi yn Orchymyn Adolygu (Cyfansoddiad) Harbwr Saundersfoot 2020 a daw i rym ar [ ] 2020.

(2) Gall Gorchymyn Grymuso Harbwr Saundersfoot 2011 a'r Gorchymyn hwn ar y cyd gael eu henwi yn Orchmynion Harbwr Saundersfoot 2011 i 2020.

**Dehongli**

**2.** —Yn y Gorchymyn hwn oni bai bod y cyd-destun yn cymell yn wahanol—

Ystyr "Gorchymyn 2011" yw Gorchymyn Grymuso Harbwr Saundersfoot 2011.

**Y Comisiynwyr**

**3.**—(1) Erthygl 4 o Orchymyn 2011 wedi'i diwygio fel a ganlyn —

(a) Hepgor o erthygl 4(1) "wyth".

**Cyfansoddiad y Comisiynwyr**

**4.**—(1) Erthygl 5 o Orchymyn 2011 wedi'i diwygio fel a ganlyn —

(a) yn lle erthygl 5(1) rhodder —

Ni fydd y Comisiynwyr yn llai nag wyth a ddim yn fwy na deuddeg yn cynnwys:

(a) y prif swyddog gweithredol ac, os penderfyna'r Comisiynwyr, un prif swyddog arall a fydd yn dal y swydd am ba hyd bynnag y byddan nhw'n cael eu cyflogi fel prif swyddog gweithredol neu fel prif swyddog;

(b) dau berson a fydd yng ngolwg y Comisiynwyr yn meddu ar wybodaeth arbennig neu brofiad o safle'r harbwr oddi fewn i'r gymuned leol a'r economi leol;

(c) pa bersonau bynnag eraill fydd yn fodlon gweithredu fel Comisiynwyr ac sy'n meddu'r sgiliau a'r galluoedd fydd eu hangen o bryd i'w gilydd i gyflawni swyddogaeth y Comisiynydd,

ym mhob achos wedi'u penodi i fod yn Gomisiynydd trwy benderfyniad y Comisiynwyr."

(b) yn lle erthygl 5(2) rhodder —

"(2) Cyn i unrhyw berson gael ei benodi o dan baragraff (1) bydd ef neu hi yn cael ei g/chyfweld gan y Comisiynwyr a byddan nhw'n ymgynghori â phwyllgor o Gomisiynwyr a adwaenir fel y pwyllgor enwebu."

(c) trwy fewnosod fel erthygl 5(3) o —

"(3) Bydd y Comisiynwyr yn penodi pwyllgor enwebu i gyflawni'r broses ddethol ar gyfer pob penodiad Comisiynydd a bydd y pwyllgor enwebu yn cynnwys :
(a) cadeirydd neu is-gadeirydd y Comisiynwyr;
(b) un aelod annibynnol; ac
(c) ar gyfer penodiadau o dan baragraff 1(b) aelod o Gyngor Sir Penfro neu Gyngor Cymuned Saundersfoot."

**Panel penodi**

**5.**—(1) Erthygl 7 o Orchymyn 2011 i'w diwygio fel a ganlyn —

(a) hepgor erthyglau 7(1), 7(2), 7(3) a 7(4).

**Penodi Comisiynwyr a chyfnod mewn swydd**

**6.**—(1) Erthygl 8 o Orchymyn 2011 i'w diwygio fel a ganlyn —

(a) hepgor erthyglau 8(1), 8(2) a 8(3).

**Darpariaethau Trosiannol**

**7.**—(1) Erthygl 9 o Orchymyn 2011 i'w diwygio fel a ganlyn —

(a) hepgor erthyglau 9(1), 9(2), 9(3), 9(4) a 9(5).

**Tymor mewn swydd y Comisiynwyr dilynol**

**8.**—(1) Mae Erthygl 10 o Orchymyn 2011 wedi'i diwygio fel a ganlyn —

(a) trwy fewnosod yn erthygl 10(1) ar ôl "yn ddarostyngedig i" "ddarpariaethau erthygl 5(1)(a) a";

(b) hepgor erthygl 10(2);

(c) yn erthygl 10(3) yn lle "paragraff 10 o Atodlen 2" gosoder "paragraffau 10, 11 a 12 o Atodlen 2 ar yr amod na fydd paragraffau 10, 11 a 12 o Atodlen 2 yn berthnasol i Gomisiynwyr wedi'u penodi yn unol ag erthygl 5(1)(a) ".

**Swyddi gwag dros dro**

**9.**—(1) Erthygl 11 o Orchymyn 2011 wedi'i diwygio fel a ganlyn —

(a) yn lle erthygl 11(1) rhodder —

"(1) Pe bai yna swydd wag dros dro yn swyddfa'r Comisiynydd gall y Comisiynydd benodi person arall i lenwi'r swydd. Wrth wneud hynny rhaid i'r Comisiynwyr gydymffurfio ag erthyglau 5 a 6.";

(b) trwy fewnosod fel erthygl 11(2) —

"(2) Yn unol â disgresiwn y Comisiynwyr gall swydd wag dros dro gael ei gadael yn wag heblaw bod y swydd wag yn achosi i nifer y Comisiynwyr i fod yn llai nag wyth gan ei gwneud yn rheidrwydd ar y Comisiynwyr i benodi person arall i lenwi'r swydd, oni bai nad yw'n rhesymol anymarferol i wneud hynny, a rhaid cydymffurfio ag erthyglau 5 a 6.";

(c) trwy ail-rifo erthygl 11(2) fel 11(3);

(d) ym mharagraff 11(3) yn lle "Yn ddarostyngedig i erthyglau 12 a 13 a pharagraff 10 o Atodlen 2 " rhodder "Yn ddarostyngedig i erthyglau 5(1)(a), 10(3), 12 a 13 a pharagraffau 10, 11 a 12 o Atodlen 2";

(e) ym mharagraff 11(3) yn lle "yn ystod gweddill tymor y Comisiynydd y daeth ei swydd yn wag (yn cynnwys unrhyw estyniad i'r tymor hwnnw) " rhodder "am gyfnod o dair blynedd o ddyddiad y penodiad".

**Pwerau cyffredinol**

**10.**—(1) Mae Erthygl 23 o Orchymyn 2011 wedi'i diwygio fel a ganlyn —

(a) yn lle erthygl 23(1) rhodder —
"(1) Gall y Comisiynwyr gymryd pa gamau bynnag y byddant yn eu hystyried yn angenrheidiol neu yn ddymunol o bryd i'w gilydd er lles gweithredu, cynnal, rheoli a gwella:

(a) yr harbwr a'i ddynesfeydd; a
(b) chyfleusterau'r harbwr."

(b) yn lle erthygl 23(2) rhodder —

"(2) I'r dibenion uchod, a heb gyfyngu ar gwmpas paragraff (1), gall y Comisiynwyr:

(a) wella, cynnal, rheoleiddio, rheoli, marcio a goleuo'r harbwr a darparu cyfleusterau harbwr;
(b) caffael unrhyw ymgymeriad neu ran o ymgymeriad;
(c) darparu benthyciadau a gwarantau a gwneud unrhyw fath arall o ddarpariaeth ariannol;
(d) sicrhau cytundebau i ddarparu gwasanaethau ar gyfer neu ar ran cyrff eraill;
(e) yn ddarostyngedig i sicrhau'r hawl angenrheidiol ar neu dros dir, man, cyflawni, gweithredu, cynnal, adfer, newid, gwaredu, ailgodi adeileddau a gweithiau ac offer yn yr harbwr; a

(f) gwneud pob dim arall fydd yn eu barn hwy yn hwylus i alluogi i barhau neu ddatblygu'r harbwr."

(c) trwy fewnosod fel erthygl 23(3) —

"(3) Mae'r erthygl hon heb ragfarn i bwerau'r Comisiynwyr o dan neu drwy rinwedd unrhyw ddeddfiad arall."

**Is-ddeddfau'r harbwr**

**11.**—(1) Erthygl 30 o Orchymyn 2011 wedi'i diwygio fel a ganlyn —

(a) trwy fewnosod yn erthygl 30(1)(g) cyn "yr harbwr" rhoi "neu wrth deithio trwodd";

(b) trwy fewnosod yn erthygl 30(1)(s) cyn "pier" rhoi "llongau wedi'u hangori,".

**Pwerau Benthyca**

**12.**—(1) Erthygl 53 o Orchymyn 2011 wedi'i diwygio fel a ganlyn —

(a) yn erthygl 53(2)(a) yn lle "£5,000,000" rhodder "£10,000,000".

**Benthyca dros dro**

**13.**—(1) Erthygl 54 o Orchymyn 2011 wedi'i diwygio fel a ganlyn —

(a) yn erthygl 54(2)(a) yn lle "£100,000" rhodder "£2,000,000".

**Benthyca dros dro**

**14.**—(1) Erthygl 55 o Orchymyn 2011 wedi'i diwygio fel a ganlyn —

(a) yn erthygl 55(1) yn lle "dyddiad y cyfansoddiad newydd" rhodder " dyddiad y daw Gorchymyn Adolygu (Cyfansoddiad) Harbwr Saundersfoot 2020 i rym".

**Pwyllgor Cynghori**

**15.**—(1) Erthygl 58 o Orchymyn 2011 wedi'i diwygio fel a ganlyn —

(a) yn erthygl 58(2) rhodder —
"(2) Yn ddarostyngedig i ddarpariaeth yr erthygl hon, bydd y pwyllgor cynghori yn cynnwys dim llai na saith o aelodau wedi'u penodi gan y Comisiynwyr ar ôl ymgynghori â ( fel y bo'n briodol):
(a) Cyngor Sir Penfro;
(b) Cyngor Cymuned Saundersfoot;
(c) y Gymdeithas Hwylio Frenhinol;
(d) Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro,
a pha bersonau eraill y cred y Comisiynwyr o bryd i'w gilydd sy'n gymwys ac sydd ym marn resymol y Comisiynwyr yn gynrychioliadol o:

(i) ddiddordebau pysgota a thrin badau lleol yn yr harbwr;
(ii) diddordebau masnachol yn yr harbwr ar wahân i drin badau a physgota;
(iii) personau sydd â diddordeb yn yr harbwr am ba bynnag rheswm arall."

(b) hepgor erthygl 58(3).

**Ailbenodi Comisiynwyr**

**16.**—(1) Paragraff 11 o Atodlen 2 o Orchymyn 2011 wedi'i diwygio fel a ganlyn—

(a) yn lle paragraff (2) rhodder—

"(2) Nid yw Comisiynydd sydd yn gadael yn gymwys ar gyfer ei ail-benodi yn Gomisiynydd os, yn union cyn y dyddiad mewn sylw, roedd y Comisiynydd wedi dal y swydd am dri thymor yn olynol oni bai:

(a) ei fod e neu hi yn Gadeirydd y Comisiynwyr; neu

(b) ei fod e neu hi ymhlith y Comisiynwyr hynny oedd mewn swydd ar ddyddiad dod i rym Gorchymyn Adolygu (Cyfansoddiad) Harbwr Saundersfoot 2020 ac yn cael ei b/phenodi am dymor dilynol arall trwy benderfyniad y Comisiynwyr."

**Ailbenodi cadeirydd**

**17.**—(1) Paragraff 12 o Atodlen 2 o Orchymyn 2011 wedi'i diwygio fel a ganlyn—

(a) trwy fewnosod yn 12(1) ar ôl "telerau" y geiriau "oni bai ei fod e neu hi ymhlith y Comisiynwyr hynny oedd mewn swydd ar ddyddiad dod i rym Gorchymyn Adolygu (Cyfansoddiad) Harbwr Saundersfoot 2020 ac yn cael ei b/phenodi am dymor dilynol arall trwy benderfyniad y Comisiynwyr."

**Cydnabyddiaeth y Comisiynwyr a'r Cadeirydd**

**18.**—(1) Paragraff 21 o Atodlen 2 o Orchymyn 2011 wedi'i diwygio fel a ganlyn—

(a) yn lle paragraff 21(1) rhodder —

"(1) Gall y Comisiynwyr dalu i bob Comisiynydd pa gydnabyddiaeth resymol, lwfansau a chostau a bennir o bryd i'w gilydd gan bwyllgor o'r Comisiynwyr a adwaenir fel y pwyllgor taliadau."

(b) yn lle paragraff 21(2) rhodder—

"(2) Bydd y Comisiynwyr yn penodi pwyllgor taliadau yn cynnwys o leiaf dau Gomisiynydd. Bydd gan y pwyllgor taliadau gyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo i benderfynu ar gydnabyddiaeth i'r Comisiynwyr a chadeirydd y Comisiynwyr a gall, ar gais y Comisiynwyr, gynghori ynghylch cydnabyddiaeth i swyddogion gweithredol. Bydd gan y pwyllgor taliadau awdurdod i ddeisyf cyngor allanol os ystyrir hynny yn angenrheidiol".

**Mân ddiwygiadau a chanlyniadol**

**19.**—Mae'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn mewn grym.

Llofnodwyd trwy awdurdod Gweinidogion Cymru [ ]

Dyddiad

ATODLEN

MÂN DDIWYGIADAU A CHANLYNIADOL I ORCHYMYN 2011

**1.** Mae Gorchymyn 2011 wedi'i ddiwygio fel a ganlyn.

**2.** Yn erthygl 2 (Dehongli)—

(a) hepgor "corff sy'n penodi" ("appointing body") sy'n golygu unrhyw un o'r personau (sef awdurdodau lleol a'r panel penodi) a benodir yn Gomisiynwyr yn unol ag erthygl 5;";

(b) hepgor "y panel penodiadau" (the appointments panel") sy'n golygu'r panel a ffurfiwyd o dan erthygl 7;";

(c) mewnosod "y pwyllgor enwebiadau" ("the nominations committee") sy'n golygu'r pwyllgor a benodwyd o dan erthygl 5(3)";

(d) mewnosod "y pwyllgor taliadau" ("the remuneration committee") sy'n golygu'r pwyllgor a benodwyd o dan baragraff 21(2) o Atodlen 2;"._

**3.** Yn erthygl 4(1) (Y Comisiynwyr)—

(a) yn lle "erthygl 9" rhodder "darpariaethau'r Gorchymyn hwn".

**4.** Yn lle erthygl 6(1) (Dethol Comisiynwyr)—

(a) yn lle "Pob corff penodi" rhodder "Y Comisiynwyr".

**5.** Yn erthygl 6(2) (Dethol Comisiynwyr)—

(b) yn lle "Pob corff penodi" rhodder "Y Comisiynwyr".

**6.** Yn erthygl 15 (Darpariaethau yn ymwneud â Chomisiynwyr)—

(a) hepgor "Yn ddarostyngedig i erthygl 9 mewn cysylltiad â Chomisiynwyr dros dro dechreuol,".

**7.** Yn atodlen 2 (Darpariaethau achlysurol yn ymwneud â'r Comisiynwyr)—

(a) hepgor paragraff 11(4);

(b) hepgor paragraff 12(2).

NODYN ESBONIADOL

(*Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn*)

**1.** Mae'r Gorchymyn hwn, trwy ddiwygio Gorchymyn Grymuso Harbwr Saundersfoot 2001, yn newid cyfansoddiad Comisiynwyr Harbwr Saundersfoot.

**2.** Y Gorchymyn—

(a) darparu y bydd Comisiynwyr newydd yn cael eu penodi gan y Comisiynwyr eu hunain ar ôl ymgynghori â phwyllgor enwebu ac ni fydd nifer y Comisiynwyr a benodir yn llai nag wyth a ddim yn fwy na deuddeg (ar hyn o bryd penodir Comisiynwyr gan Gyngor Sir Penfro, Cyngor Cymuned Saundersfoot a'r panel penodi ac mae'n rhaid i nifer y comisiynwyr fod yn wyth);

(b) rhoi i'r Comisiynwyr y disgresiwn i adael swydd wag dros dro yn wag, yn ddarostyngedig i'r ffaith y bod yna bob amser dim llai nag wyth Comisiynydd (ar hyn o bryd mae'n rhaid llenwi swyddi gwag) a bydd unrhyw Gomisiynydd a benodir (p'un ai i lenwi swydd wag neu beidio) yn gwasanaethu tymor o dair blynedd o ddyddiad y penodiad;

(c) diweddaru pwerau cyffredinol y Comisiynwyr;

(d) diweddaru pwerau'r Comisiynwyr i lunio is-ddeddfau;

(e) cynyddu cyfyngiad benthyca'r Comisiynwyr o £5,000,000 i £10,000,000;

(f) cynyddu cyfyngiad benthyca dros dro'r Comisiynwyr o £100,000 i £2,000,000;

(g) amrywio cyfansoddiad y pwyllgor cynghori;

(h) creu pwyllgor taliadau;

(i) caniatáu taliad cydnabyddiaeth i Gomisiynwyr (ar hyn o bryd dim ond y Cadeirydd sy'n medru derbyn tâl cydnabyddiaeth) trwy awdurdod wedi'i ddirprwyo i bwyllgor taliadau wedi'i gyfansoddi'n briodol.